

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT
2 RHAGFYR 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 2 Rhagfyr 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Janet Axworthy, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Joe Johnson, Tudor Jones, Dave Mackie a Martin White

AELOD CYFETHLEDIG:

Lynn Bartlett

DIRPRWYON:

Cynghorydd Sean Bibby (ar ran y Cynghorydd Ian Smith)

YMDDIHEURIADAU:

Councillor Gladys Healey a Mrs Wendy White

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg. Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Uwch-Reolwr Gwelliannau Ysgol (ar gyfer eitem rhaglen 5 a 6) a Peter Hawley (ysgol Uwchradd Cei Connah) (ar gyfer eitem rhaglen 5)

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democraidd

30. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

31. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021.

Materion yn codi:

Ar dudalen 9, cyfeiriodd y Cadeirydd at ddatganiad ar y cyd diweddar a gyhoeddwyd gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar addysg ddewisol yn y cartref. Dywedodd bod hwn yn ddatganiad cadarn yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu ar gofrestru plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi pwyso ar hyn a dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn edrych ymlaen i hyn symud ymlaen.

Cyfeiriodd Mrs. Lynne Bartlett at y frawddeg gyntaf yn y chweched paragraff ar dudalen 10 y cofnodion, a gofynnodd os ellir newid y gair 'dosbarth' i 'ysgol'. Cytunwyd ar hyn.

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwywyd y cofnodion yn rhai cywir gan y Cynghorydd Janet Axworthy ac eiliwyd gan y Cynghorydd Martin White.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

32. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r adroddiad a chadarnhau'r newidiadau a wnaethpwyd i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Gan fod nifer o eitemau wedi'u rhestru ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, roedd y diweddariad Moderneiddio Ysgolion wedi'i symud i gyfarfod mis Mehefin. Ychwanegodd yr Hwylusydd efallai bydd angen gwneud newidiadau ychwanegol i'r Rhaglen gwaith i'r Dyfodol oherwydd yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai. Bydd yn cysylltu â Chadeirydd a Phrif Swyddog ynglŷn â hyn a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Gan gyfeirio at Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd bod y Gweithdy ar '#Be Kind Pledge a Chyfyngau Cymdeithasol' yn cael ei drefnu ac ar ôl cadarnhau, bydd y dyddiad yn cael ei ddisbarthu i bob Aelod. Cadarnhaodd yr Hwylusydd bod y mwyafrif o gamau gweithredu a amlinellwyd wedi'u cwblhau, gyda llythyrau yn cael eu hanfon at Mr Jeremy Miles AC, Gweinidog Addysg, ar Addysg Ddewisol Yn Y Cartref a'r Rhaglenni Gwella Ysgol, a bydd copi o'r rhain yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth.

Mewn perthynas ag un cam gweithredu sydd heb ei gwblhau, cadarnhaodd yr Hwylusydd bod yr Uwch-Reolwr Gwella Ysgolion wedi darparu'r wybodaeth a geisiwyd i'r Cynghorydd Dave Mackie, felly mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau yn awr.

Roedd yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd David Mackie a'r Cynghorydd Janet Axworthy.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y cynnydd a wnaed gyda'r camau gweithredu heb eu cwblhau yn cael ei nodi.

33. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GEFNOGI PLANT Y LLUOEDD ARFOG MEWN ADDYSG

Cyn cyflwyno'r Adroddiad, croesawodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Mr Peter Hawley o Ysgol Uwchradd Cei Connah i'r cyfarfod a oedd

wedi'i wahodd i ddarparu gwybodaeth am ei rôl yn cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yn yr ysgol.

Cyflwynodd yr Uwch-Reolwr Gwelliant Ysgolion adroddiad i ddarparu trosolwg i'r Pwyllgor ar sut mae'r Portffolio Addysg ac Ieuencid yn cefnogi ysgolion sydd gan ddisgyblion gyda phlant y lluoedd arfog. Yn ogystal, amlinellodd yr adroddiad sut mae'r cyllid i'r Cyngor wedi'i ddyrannu ar draws ysgolion Sir y Fflint a roedd gwaith yn cael ei gyflawni ochr yn ochr Cefnogi Plant Y Lluoedd Arfog mewn Addysg Cymru (SSCE) i gasglu data ar y nifer a lleoliad Plant Y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Eglurodd yr uwch-reolwr ers dechrau'r rhaglen yn 2014, roedd SCCE Cymru wedi gweithio fel rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi a darparu sail adnodd ar gyfer holl Awdurdodau Lleol ac ysgolion annibynnol yng Nghymru. Siarad gyda Plant y Lluoedd Arfog i gael dealltwriaeth o'u profiadau wedi galluogi darparu gwell gefnogaeth i'w helpu, a chadarnhaodd yr Uwch-Reolwr ei bod wedi eistedd ar Fforwm y Lluoedd Arfog Sir y Fflint ac wedi amlinellu meysydd lle roedd Sir y Fflint yn cael ei gynrychioli a oedd yn galluogi darparu'r gefnogaeth ac arweiniad orau i ysgolion gael symud ymlaen.

Diolchodd y Cynghorydd Dave Mackie i'r Uwch Reolwr am yr adroddiad. Cyfeiriodd at wefan SSCE Cymru a gofynnodd a oedd Sir y Fflint yn rhan o'r rhaglen Ysgolion Sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch-Reolwr bod nifer o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ymrwymedig yn ceisio symud hyn ymlaen, a bod Ysgolion yn anelu i gael eu hadnabod am eu harferion da. Awgrymodd y bydd adroddiad arall i amlinellu'r camau blaenoriaeth i'r Ysgolion yn dilyn yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng ngwanwyn 2022.

Soniodd y Cynghorydd Tudor Jones am y ffordd yr oedd cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei ddyrannu a'i ddsbarthu i ysgolion unigol, ac awgrymodd y bydd angen cyllid os bydd cynnydd yn y nifer o ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu unigolyn sydd â mwy o anghenion mewn un ysgol, lle'r oedd gofynion mewn ysgol arall wedi'i wrthod. Cytunodd yr Uwch-Reolwr i roi adborth ar yr awgrym hwn i SSCE Cymru yn dilyn y cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Peter Hawley i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor. Rhoddodd Mr Hawley drosolwg o'i wasanaeth milwrol fel Uwch-ringyll gyda Chatrawd Swydd Efrog, ac ymddeolodd yn 2012 ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth. Roedd wedi bod ar daith o amgylch y byd a roedd ei deithiau mwyaf diweddar yn Irac ac Affganistan. Eglurodd yn ystod ei amser yn y fyddin, bod ganddo 60 o ddynion dan ei orchymyn a roedd wedi gweithio i sicrhau bod eu bywyd yn mynd rhagddynt mor esmwyth â phosib gan bod gan nifer ohonynt deuluoedd ifanc gartref tra roeddynt i ffwrdd yn brwydro. Siaradodd am effaith ar ei deulu ei hun tra'r oedd yn y fyddin, a'r effaith ar ei blant pan roeddynt yn cael eu dysgu am ryfeloedd yn yr Ysgol. Siaradodd Mr Hawley am ei amser yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yn egluro ei fod wedi gweithio fel technegydd o fewn yr Adran Beirianyddol. Eglurodd yn ystod ei amser yn cefnogi Plant y Lluoedd Arfog, roedd wedi siarad yn aml gyda'r plant ac wedi annog rhieni i gysylltu ag ef. Roedd wedi trefnu clybiau brechwast lle'r oedd milwyr wedi cael eu gwadd i siarad â'r plant am eu profiadau tebyg. Hefyd, soniodd am ei waith gwirfoddoli o fewn y gymuned gyda milwyr di-gartref a chodi arian ar gyfer elusen Minds at War.

Diolchodd y Prif Swyddog Mr Hawley am ei bresenoldeb a'i gyflwyniad, a dywedodd nad oedd modd peidio cael eich cyffwrdd gan ei brofiadau, yn arbennig effeithiau ei wasanaeth milwrol ar ei deulu. Dywedodd bod hyn yn dangos pam bod y gwaith mewn Ysgolion yn bwysig i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog. Roedd yn ddiolchgar i Mr Hawley am y gefnogaeth yr oedd yn ei ddarparu i blant yng Nghei Connah.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn bleser gallu croesawu Mr Hawley i'r cyfarfod a dywedodd ei fod wedi cyfarfod Mr Hawley yn ystod ymweliad i'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol yn Ysgol Uwchradd Cei Connah. Soniodd am y gwaith pwysig y mae Mr Hawley yn ei gyflawni a diolchodd iddo am ei gwrteisi ac am roi o'i amser yn ymweld â'r Ysgol.

Cytunodd nifer o Aelodau gyda sylwadau y Prif Swyddog ac Arweinydd y Cyngor, a diolchwyd i Mr Hawley am y gefnogaeth yr oedd yn ei ddarparu. Croesawodd y Cadeirydd y cyfle i ystyried y pwnc, nad oedd wedi'i gyflwyno eto i'r Pwyllgor yn flaenorol, a chanmolodd y Swyddogion Portffolio Addysg ac Ieuenctid am gyflwyno'r adroddiad a chodi proffil cefnogaeth i blant y lluoedd arfog.

Awgrymodd Arweinydd y Cyngor, os caniateir, bod y Pwyllgor yn ymweld â'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol, gan ei fod wedi dysgu llawer ynghylch y cefnogaeth a ddarperir i Blant y Lluoedd Arfog wrth ymweld â'r Rhaglen. Awgrymodd yr Hwylusydd bod hyn yn cael ei ychwanegu i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyda nodyn yn dweud, os caniateir y flwyddyn nesaf, bod rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn mynychu'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol.

Awgrymodd bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at Mr Peter Hawley ac Ysgol Uwchradd Cei Connah yn diolch iddo am ei gyflwyniad ac am y gwaith sy'n cael ei gyflawni i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg, a bod y Cadeirydd y Cyngor yn ogystal yn ysgrifennu ar Mr Peter Hawley ac Ysgol Uwchradd Cei Connah yn diolch iddo am ei gyflwyniad. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Peter Hawley am fod yn bresennol.

Roedd yr argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol i ysgrifennu at Mr Peter Hawley, wedi eu heilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy a'r Cynghorydd Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi a chanmol cynnydd gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid i gefnogi ysgolion i fodloni anghenion Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg;
- (b) Awgrymodd bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at Mr Peter Hawley ac Ysgol Uwchradd Cei Connah yn diolch iddo am ei gyflwyniad ac am y gwaith sy'n cael ei gyflawni i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg.

- (c) Awgrymodd bod Cadeirydd y Cyngor yn ysgrifennu at Mr Peter Hawley ac Ysgol Uwchradd Cei Connah yn diolch iddo am ei gyflwyniad ac am y gwaith sy'n cael ei gyflawni i gefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg.

34. CYNLLUN STRATEGOL 10 MLYNEDD CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

Cyn cyflwyno'r adroddiad, soniodd y Cynghorydd Tudor Jones am ymrwymiad y Cyngor i gynyddu nifer y 'siaradwyr rhugl yn y Gymraeg' o fewn ei ysgolion ac ymestyn y sgiliau Cymraeg i'r gymuned ehangach. Awgrymodd bod y gair "rhugl" yn cael ei dynnu gan ei fod yn teimlo fod cael gwared o'r angen am siaradwyr rhugl yn y Gymraeg yn sicrhau gwell gyfranogiad. Roedd yn teimlo bod y term 'sgwrsio Cymraeg' yn fwy priodol. Rhoddodd y Cynghorydd Jones ddiffiniadau derbyniol i'r termau siaradwyr "rhugl" a "sgwrsio".

Mewn ymateb, diolchodd yr Uwch-Reolwr Gwella Ysgolion i'r Cynghorydd Jones am ei awgrym a chytunodd i rannu'r awgrym fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd Arweinydd y Cyngor a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) yn cefnogi'r awgrym gan y Cynghorydd Jones. Dywedodd yr Hwylusydd bod yr awgrym a wnaethpwyd gan y Cynghorydd Jones yn cael ei nodi fel cam gweithredu o'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Uwch-Reolwr yr adroddiad a rhoddodd drosolwg i'r Pwyllgor o'r cynllun drafft ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) nesaf a fydd yn cael ei gynnal rhwng mis Medi 2022 tan 2032. Bydd y cynllun cyntaf deg mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032, a bydd rhaid i'r Cynllun gynnwys targed yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y nifer o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy'r Gymraeg yn yr ardal awdurdod lleol yn ystod hyd bywyd y Cynllun. Yn ystod pandemig COVID-19, cafodd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 eu diwygio, felly cafodd cylchred WESP cyfredol Sir y Fflint ei ymestyn 1 blwyddyn, a bydd yn dod i ben erbyn mis Medi 2022.

Rhoddodd yr Uwch-Reolwr wybodaeth ar y Fforwm Strategol Cymru sefydledig ac effeithiol, a oedd yn cyfarfod bob tymor i ddatblygu rhaglenni gwaith. Amlinellwyd cylch gwaith y Fforwm yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Martin White i'r Uwch Reolwr am yr adroddiad. Cyfeiriodd at ymweliad diweddar i Ysgol Uwchradd Cei Connah, yn ystod taith o amgylch y dosbarthiadau, cafodd yr holl gyflwyniadau eu gwneud yn y Gymraeg. Croesawodd hyn a dywedodd bod yn galonogol clywed cynnydd o ran siarad Cymraeg ar draws yr ysgol.

Diolchodd y Prif Swyddog i'r Uwch-Reolwr am ei gwaith caled fel yr arweinydd strategol ar gyfer Strategaeth Cymraeg mewn Addysg Sir y Fflint. Amlinellodd waith Ms Sian Hilton, cyn Bennaeth yn Sir Ddinbych wrth holi'r Fforwm i sicrhau bod pob dogfennaeth mewn lle i greu llwybr ar gyfer y cynllun, a dywedodd na fyddai wedi bod yn bosibl i fodloni'r dyddiad cau yr ymgynghoriad a nodwyd gan LIC heb waith caled Ms Hilton a'r uwch-reolwr. Diolchodd yr Uwch-Reolwr i'r Prif Swyddog am ei sylwadau a dywedodd bod ymdrech tîm da wedi bod o fewn y Fforwm. Diolchodd i'r Cynghorydd White am ei sylwadau a dywedodd wrth y Pwyllgor bod hyn yn cael ei ailadrodd mewn Ysgolion ar draws

Sir y Fflint, gyda tîm dynodedig o Athrawon Ymgynghorol Cymru yn cefnogi Ysgolion.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i bawb a oedd wedi cyfrannu i'r WESP ac amlinellodd y pwysigrwydd y Cyngor i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg ar draws Sir y Fflint. Eglurodd bod ei ddi-ddordeb yn yr iaith Gymraeg wedi codi ar ôl ei ymweliad cyntaf i Eisteddfod yr Urdd fel plentyn, a dywedodd y dylai pob plentyn yn Sir Y Fflint gael eu hannog i fynychu Eisteddfodau yn y dyfodol yn yr ardal.

Cafodd yr argymhelliad, fel y nodir yn yr adroddiad, ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Tudor Jones a'r Cynghorydd Martin White.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Addysg, Ieuenctid a Diwylliant yn nodi'r ymgynghoriad drafft y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032.

35. CYNLLUN HAF O HWYL SIR Y FFLINT A CHYNLLUNIAU CHWARAE'R HAF

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad a rhoddodd fanylion ar sut mae'r Cynlluniau Chwarae yr Haf a Haf o Hwyl yn cael eu darparu yn Sir y Fflint. Dyma'r 26fed flwyddyn mae'r Cyngor wedi darparu rhaglen Cynllun Chwarae'r Haf Sir y Fflint, a diolchodd y Prif Swyddog Mrs. Janet Roberts (Swyddog Datblygu Chwarae) a'r tîm o weithwyr chwarae a oedd wedi sicrhau bod y rhaglenni yn cael eu cefnogi'n dda eto yn 2021.

Eglurodd y Prif Swyddog ym mis Mehefin 2021, bod Llywodraeth Cymru wedi lansio ei raglen 'Haf o Hwyl' sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gyda Chomisiynydd Plant Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Roedd Llywodraeth Cymru sicrhau bod £5miliwn ar gael ar draws Cymru, a Sir Y Fflint yn cael dyraniad o £218,000 i ddarparu 'Haf o Hwyl' i blant a phobl ifanc i gynorthwyo i liniaru ychydig o effeithiau negyddol yn dilyn y cyfyngiadau COVID-19. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi pwy ddylai gael eu targedu i'r rhaglen hon, a rhoddodd wybodaeth ar y rhestr o weithgareddau a ddarparwyd a oedd yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer plant hŷn yn eu ardegau. Mae ymrwymiad y tîm wedi bod yn wych a roedd y swyddogion yn y broses o ddarparu adborth i Lywodraeth Cymru a fydd yn paratoi adroddiad gwerthuso. Yn dilyn llwyddiant rhaglen Haf o Hwyl, roedd Llywodraeth Cymru wedi parhau i ariannu hwn ac yn cynllunio Rhaglen Gaeaf Llawn Lles i'w gynnal rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth, gyda ffocws benodol ar hanner tymor mis Chwefror.

Dywedodd y Prif Swyddog bod y Swyddog Datblygu Chwarae yn casglu adborth gan rieni a phlant ar y Rhaglen, ac awgrymodd ar ôl derbyn adborth, y byddai yn ei ddsbarthu i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am yr adroddiad a chanmolwyd y gwaith a gyflawnwyd i ddarparu cyfle i'r plant, a chroesawyd yr ymrwymiad a roddwyd i ddarparu Rhaglen Gaeaf Llawn Lles. Ailadroddodd Arweinydd y Cyngor y sylwadau a wnaethpwyd gan y Cadeirydd a diolchodd hefyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned am eu cyfraniad parhaus i sicrhau bod y Rhaglenni yn cael eu darparu.

Gofynnodd y Cyngorydd Tudor Jones am y nifer o safleoedd Cymraeg iaith gyntaf gan fod y nifer y safleoedd yn wahanol o fewn yr adroddiad. Cytunodd y Prif Swyddog i wirio hyn ac i adrodd yn ôl i'r Cyngorydd Jones yn dilyn y cyfarfod.

Cynigiwyd yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cyngorydd David Mackie a'r Cyngorydd Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn cael y cyfle i gael mynediad a manteisio ar ystod o weithgareddau gwerthfawr dros wyliau'r haf drwy Gynllun Chwarae Sir y Fflint a Rhaglen Haf o Hwyl; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn canmol ymdrech sylweddol gan Swyddogion y Cyngor a Swyddogion mewn sefydliadau partneriaid allweddol i ddarparu rhaglenni llwyddiannus yn gyflym ac yn ddiogel, yn arbennig o fewn amserlenni heriol.

36. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.39 pm)

.....
Y Cadeirydd